

Cyngor Cymuned **Bryncrug** Community Council

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar

nos Lun 15fed o Fai 2017 am 7pm

Presennol: Cynghorydd Richard Evans (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Peter Parker, Bethan Lawton, Arwel Pierce, Alan H. Jones

CYFARFOD BLYNYDDOL

1. Ymddiheuriadau: Cynghorydd Simon Jones

2. Datgan diddordeb: Cynghorydd Bethan Lawton - eitem 16 / eitem 17

3. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd gan Gynghorwyr:

PENDERFYNIAD: Derbyniwyd y Datganiad Derbyn Swydd gan y Cynghorwyr oedd yn bresennol.

4. Ethol Cadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18:

Diolchodd y Cynghorydd Richard Evans ei gyd-gynghorwyr am eu gwaith dros y blynyddoedd diwethaf a mynegodd longyfarchiadau i'r Cynghorydd Bethan Lawton ar ei buddugoliaeth yn etholiadau Cyngor Gwynedd.

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Richard Evans yn Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18, gyda'r Cynghorydd Arwel Pierce yn cynnig a'r Cynghorydd Alan Jones yn eilio.

5. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd:

PENDERFYNIAD: I'w dderbyn ar ddiwedd y cyfarfod.

6. Ethol Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18:

PENDERFYNIAD: Etholwyd y Cynghorydd Simon Jones yn Is-Gadeirydd y Cyngor am y flwyddyn 2017/18.

7. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Is-Gadeirydd:

PENDERFYNIAD: Yn absenoldeb y Cynghorydd Simon Jones, i dderbyn y datganiad yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

8. Enwebu a phenodi Cynghorwyr y gyrrff allanol:

PENDERFYNIAD: I enwebu'r canlynol:

Cae Chwarae a Chae Pêl-droed – y Cynghorydd Alan Jones

Un Llais Cymru – y Cynghorydd Richard Evans

Ysgol Gynradd Craig y Deryn – y Cynghorydd Bethan Lawton

9. Mabwysiadu Rheolau Sefydlog:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r Rheolau Sefydlog gyda un newid, sef i leihau y nifer o Gynghorwyr sydd ei angen ar gyfer cworwm o 5 i 4 Cynghorydd.

10. Mabwysiadu Rheoliadau Ariannol:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol.

11. Mabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr:

PENDERFYNIAD: I fabwysiadu Cod Ymddygiad i Gynghorwyr.

12. Penodi Archwilydd Mewnol ar gyfer 2017/18:

PENDERFYNIAD:

I benodi Mr John Roberts yn archwilydd mewnol y Cyngor.

I ysgrifennu llythyr at Mr Ieu Thomas er mwyn diolch iddo am ei wasanaeth i'r Cyngor, gan egluro bod cyfle i'w gyfethol i'r Cyngor pe byddai'n ail-ystyried bod yn Gynghorydd.

CYFARFOD ARFEROL**13. Derbyn cofnodion 25 Ebrill 2017**

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cofnodion, gyda cywiriad;

-Pen-y-Wern yw'r annedd a dim Pengwern

14. Cyfrifon i'w talu:

B Gwilym	Cyflog	101545	£166.64
Cyllid a Thollau	Yswiriant Gwladol	101546	£41.60
Y Ganolfan	Llogi ystafell	101547	£24.00

Cafwyd wybod gan Gynghorydd y bydd anfoneb yn cyrraedd yn fuan gan Travis Perkins am baent.

PENDERFYNIAD:

I dalu'r anfonebau uchod.

I dderbyn y wybodaeth parthed y paent.

15. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cynnig Coed Afal am Ddim:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y cynnig o goed afal. I blannu'r coed gyda plant y pentref / clwb ieuentid.

16. Mono - gosod mast teleffon ym Mhentref Brynchrug:

Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu a gadael yr ystafell.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth, gan drafod y manylion gyda'r cais cynllunio NP5/55/110C.

17. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Brynchrug Works, Pen y Bont, Brynchrug (NP5/55/110C):

Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddatgan buddiant sydd yn rhagfarnu a gadael yr ystafell.

PENDERFYNIAD: I ddatgan pryder:

-mast yn agos i dai a gwersyll carafanau

-safle yn agos i'r afon, gyda hanes o lifogydd ar y safle

Bu i'r Cynghorydd Bethan Lawton ddychwelyd i'r cyfarfod.

18. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Cais Cynllunio - Dolau Gwyn, Brynchrug (NP5/55/LB40E):

PENDERFYNIAD: Dim gwrthwynebiad, cyn belled nad yw cymeriad yr annedd yn cael ei effeithio

19. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri - Lleoliadau - Nosweithiau Cynghorau Tref a Chymuned:

PENDERFYNIAD: Y Cynghorydd Bethan Lawton i fynychu'r cyfarfod yn Aberdyfi.

20. Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru - Cau y Ddalfa yn Nolgellau:

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

21. Cae Chwarae - Adroddiad:

Nodwyd y canlynol:

-Y ffin yn iawn

-Pyst angen eu taflu

-Pafiliwn angen ei lanhau/baentio

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

22. Adroddiad y Cynghorydd Sir:

Ffos angen ei ailagor yn ardal Rhyd-yr-Onnen.

PENDERFYNIAD: I dderbyn y wybodaeth.

23. Unrhyw fater brys ym marn y Cadeirydd:

Dim

PENDERFYNIAD: Nid oedd unrhyw fater brys.

Bu i'r cyfarfod ddirwyn i ben am 8:19pm

Llofnod y Cadeirydd